Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.2 Cyllid loteri

Cronfa Loteri Fawr

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cynnig amrywiaeth eang o raglenni grantiau sydd â'r nod o wneud gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Mae nhw eisiau cefnogi prosiectau sy'n datblygu sgiliau pobl, yn hyrwyddo cynnwys y gymuned ac yn annog ffyrdd mwy iach o fyw.

Arian i Bawb Cymru

Mae Arian i Bawb Cymru'n ariannu prosiectau sy'n cynnwys pobl yn eu cymunedau lleol, gan ddod â nhw ynghyd a'u galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau cymunedol sy'n hyrwyddo addysg, yr amgylchedd ac iechyd yn y gymuned leol.

Mae grantiau rhwng £500 a £5,000 ar gael.

Mae pecynnau cais ac arweiniad ar gyfer Arian i Bawb ar gael ar y wefan, www.arianibawb.org.uk, neu gallwch ffonio 01686 611 700 i gael copi caled.

Nid oes gan Arian i Bawb Cymru unrhyw derfyn amser na dyddiad cau.

Pawb a'i Le

Mae Pawb a'i Le'n ceisio dod â phobl ynghyd i wneud eu cymunedau'n gryfach a gwella eu hamgylcheddau gwledig a threfol. Bydd y rhaglen hon yn cefnogi pobl i gydweithio a gwneud eu cymunedau'n lleoedd gwell i fyw. Bydd yn cefnogi prosiectau lleol a rhanbarthol ynghyd â phrosiectau sy'n gweithredu ar draws Cymru.

Gall Pawb a'i Le ariannu prosiectau sy'n cyflawni un neu fwy o'r canlyniadau rhaglen canlynol:

- adfywio cymunedau
- gwella cysylltiadau cymunedol
- gwella amgylcheddau, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau lleol.

Mae'r rhaglen hon yn agored i'r sectorau cymunedol gwirfoddol a chyhoeddus. Bydd arian ar gael ar gyfer prosiectau refeniw a chyfalaf, a gellir ei ddefnyddio i ddatblygu cymunedau neu gymunedau buddiant yng Nghymru.

Mae mwy o wybodaeth am Bawb a'i Le ynghyd â phecynnau ymgeisio a gwybodaeth am ein rhaglenni eraill ar gael wefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Mae rhaglen Pawb a'i Le wedi ei estyn. **Bydd y rhaglen yn parhau'n agored i geisiadau tan ganol 2011**. Caiff y rhaglen bresennol ei hadeiladu a'i dilyn gan raglen Pawb a'i Le newydd yn 2011. Bydd y rhaglen olynol yn adeiladu ar lwyddiant rhaglen bresennol Pawb a'i Le ac felly, mae'n debygol o feddu ar lawer o'r un nodweddion.

Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Mae'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn anelu at helpu cymunedau i fod yn gryfach ac yn fwy cynaliadwy drwy eu helpu i ddod o hyd i asedau megis tir ac adeiladau, a'u datblygu.

Mae'r rhaglen CAT yn rhaglen strategol sy'n canolbwyntio ar alluogi cymunedau i gael mwy o reolaeth a dylanwad dros eu dyfodol. Trwy'r rhaglen CAT byddwn yn buddsoddi hyd at £13 miliwn mewn cymunedau er mwyn eu helpu i drosglwyddo, datblygu, rheoli a chynnal asedau er mwyn gwella'u bywoliaethau a'u cymdogaethau.

Dylid defnyddio asedau i gynhyrchu ffrydiau incwm a darparu gwasanaethau ac amwynderau o safon sy'n ddichonol ac yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol dros yr hir dymor.

Mae mwy o wybodaeth am y rhaglen CAT ar wefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Cronfa Loteri Fawr – Ymateb Pellach i'r Dirwasgiad

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru wedi dyrannu arian ychwanegol i helpu cymunedau yn ystod y dirwasgiad fel rhan o becyn o fesurau a gyhoeddwyd yn ystod 2009. Mae £2 filiwn ychwanegol yn cael ei ddarparu fel cefnogaeth ychwanegol i gymunedau ar draws Cymru sy'n cael eu heffeithio gan y dirwasgiad.

Dyfarniadau Newydd. Caiff ail ffrwd trywydd cyflym rhaglen Pawb a'i Le y Gronfa Loteri Fawr yn benodol ar gyfer y dirwasgiad ei lansio, gan gynnig grantiau hyd at £50,000 dros ddwy flynedd i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i gefnogi teuluoedd a phlant bregus sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Cefnogaeth i deuluoedd bregus, gan gynnwys y rhai sy'n profi argyfwng ac sydd mewn perygl o chwalu
- Cefnogaeth i blant bregus, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o droseddu neu sydd eisoes o fewn y system cyfiawnder troseddol
- Cefnogaeth i deuluoedd a phlant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys cydweithfeydd bwyd, cynlluniau ailgylchu dillad, cyngor maeth a deietegol
- Cefnogaeth i ddioddefwyr trais yn y cartref
- Cefnogaeth i ofalwyr ifanc
- Cefnogaeth i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan gamddefnyddio sylweddau
- Cefnogaeth i blant sydd â rhiant yn y ddalfa.

Rheoli Grantiau'n Hyblyg. Mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn parhau i fonitro deiliaid grantiau presennol am unrhyw arwyddion y gallai canlyniadau eu prosiectau fod mewn perygl oherwydd effaith y dirwasgiad. Er bod prosesau rheoli grantiau'r Gronfa Loteri Fawr eisoes yn hyblyg iawn, mae'r Gronfa'n estyn y cyfle i ddarparu dyfarniadau ategol i ddeiliaid grantiau presennol lle gellir dangos bod prosiectau mewn perygl o ganlyniad uniongyrchol i'r dirwasgiad. Byddwn yn ysgrifennu at ddeiliaid grantiau eto cyn bo hir gyda mwy o wybodaeth fanwl am sut mae hyn yn gweithio.

Blaenoriaeth i Brosiectau sy'n Lleddfu Effaith y Dirwasgiad. Elfen derfynol pecyn dirwasgiad y Gronfa Loteri Fawr oedd defnyddio hyblygrwydd rhaglen Pawb a'i Le bresennol y Gronfa Loteri Fawr sy'n ymateb i alw. Mae'r Pwyllgor gwneud dyfarniadau wedi cytuno i flaenoriaethu ceisiadau i brosiectau sy'n debygol o helpu cymunedau i leddfu effaith y dirwasgiad. Rhoddwyd hwn ar waith yn sgil cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2009, gan arwain at 5 gwobr hyd yn hyn gwerth cyfanswm o £1.13 miliwn ar gyfer prosiectau a fydd yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf gan y dirwasgiad.

Manylion cysylltu:

Swyddfa'r Drenewydd
Cronfa'r Loteri Fawr, Ail Lawr, T^y Ladywell, Y Drenewydd, Powys SY16 1JB.
Ffôn: 01686 611 700
Ffacs: 01686 621 534
enquiries.wales@biglotteryfund.org.uk
www.biglotteryfund.org.uk

Swyddfa Caerdydd
6ed Llawr, 1 Ffordd y Brenin, Caerdydd CF10 3JN
Ffôn: 029 2067 8200
Ffacs: 029 2066 7275

Cist Gymunedol SPORTLOT

Cynllun grantiau sydd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol sydd â'r amcan o ddatblygu chwaraeon ar lawr gwlad, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc, menywod a merched a grwpiau sydd dan anfantais. Penderfynir ar grantiau o lai na £1,000 ar lefel leol. Sefydlwyd pwyllgorau ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n cynnwys pobl leol sydd â gwybodaeth am chwaraeon yn yr ardal.

Manylion cysylltu:
Cyngor Chwaraeon Cymru,
Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9SW
Ffôn: 0845 045 0904
Ffacs: 029 2030 0600
scw@scw.co.uk
www.sports-council-wales.co.uk

Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Fel corff sy'n dosbarthu arian y Loteri, mae gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri nifer o gynlluniau ariannu sydd â'r amcan o:

- Warchod a gwella nodweddion treftadaeth adeiladau, gwrthrychau a'r amgylchedd, rhai gwneuthuredig a naturiol, a fu o bwys wrth ffurfio cymeriad a hunaniaeth y DU.
- Rhoi cyfle i bawb ddysgu am eu treftadaeth, ei phrofi a'i mwynhau.
- Cadw cyfleoedd ar gyfer mynediad a mwynhad gan genedlaethau'r dyfodol.

Drwy ei gwahanol raglenni grant, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn ceisio hybu prosiectau treftadaeth, rhai bach a rhai mawr, sydd wedi'u cyflwyno gan amrywiaeth eang o grwpiau a mudiadau.

Manylion cysylltu:
Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Swyddfa 5A, Hodge House, Guildhall Place, Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF10 1DY
Ffôn: 029 2023 4151
Ffacs: 029 2034 3427
wales@hlf.org.uk
www.hlf.org.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dosbarthu arian ar ran y Loteri i brosiectau sy'n ymwneud â'r celfyddydau.

Cynllun Grantiau Cyfalaf

Cronfa ar gyfer adeiladau a chyfarpar i'r celfyddydau'n bennaf ond gall roi cymorth hefyd ar gyfer celfyddyd gyhoeddus, astudiaethau dichonoldeb a gwaith datblygu. Mae 'Grant Bach Cyfalaf' ar gael hefyd ar gyfer prosiectau sy'n werth rhwng £2,000 a £10,000.

Dyfarniadau Cymru Greadigol (£5,001 i £12,000)
Arian ar gyfer artistiaid proffesiynol, gyda'r bwriad o helpu artistiaid i wireddu eu potensial a pherffeithio eu sgiliau ac adnewyddu partneriaethau creadigol. Un o amcanion eraill y dyfarniadau yw galluogi artistiaid i dreulio amser i ffwrdd o'u hymrwymiadau arferol er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu eu gwaith.

Dyfarniadau Cymru Greadigol Mawr (£20,000 i £25,000)
Yn ogystal â'r uchod, mae'n ofynnol i artistiaid ddangos cyflawniadau a chyfraniadau cyson yn eu maes ymarfer proffesiynol yng Nghymru.

Noson Allan – Cynllun Teithio Cymunedol

Pwrpas y cynllun hwn yw helpu grwpiau a mudiadau cymunedol i gynnal perfformiadau proffesiynol byw heb gael y risg ariannol arferol.

Manylion cysylltu:
Cyngor Celfyddydau Cymru,
9 Stryd yr Amgueddfa, Caerdydd CF10 3NX
Ffôn: 029 20 37 6500
Ffacs: 029 20 22 1447
www.artswales.org

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Y Mwnt, 18 Heol y Frenhines, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JT
Elusen Gofrestredig *1062144*

Ffôn: 01267 245555 info@cavs.org.uk
Ffacs: 01267 245550 www.cavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:11/02/2010

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk